

ADRODDIAD BLYNYDDOL Y LLYWODRAETHWYR I'R RHIENI 2021/22

CYNNWYS

GWYBODAETH	2
GAIR GAN GADEIRYDD Y CORFF LLYWODRAETHOL	3
Y CORFF LLYWODRAETHOL	5
STAFF	8
ADRODDIAD 2021/22	9
DYDDIADAU BLWYDDYN ACADEMAIDD 2022/23	16
DATGANIADAU ARIANNOL LLAWN 2021/22	17
GAIR I GLOI	19

GWYBODAETH

Ysgol gynradd benodedig Gymraeg i ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed.

Nifer y disgyblion ar y gofrestr ar ddiwedd blwyddyn academaidd 2021/22 oedd 182.

Cyfeiriad
18 Stryd Rhosmaen, Llandeilo SA19 6LU

Ffôn
(01558) 823489

Ebost
admin@teilosant.ysgolccc.cymru

Gwefan
ysgolteilosant.cymru

GAIR GAN GADEIRYDD Y CORFF LLYWODRAETHOL

Y CORFF LLYWODRAETHOL

Dyna braf yw cael paratoi'r cyflwyniad hwn i'r Adroddiad Blynyddol gyda'r ysgol mwy neu lai yn gweithredu fel arfer unwaith eto. Er hynny, mae'n bwysig cofio nad yw'r holl heriau a gyflwynodd Covid i ni wedi diflannu a bod dal rhaid i'r ysgol ymateb i lefelau uwch o absenoldebau disgyblion a staff nag oedd yn arferol rhai blynyddoedd yn ôl.

Rwy'n siwr erbyn hyn bod y mwyafrif wedi cael cyfle i gwrdd â'r Pennaeth newydd ac edrychwn ymlaen at ddod i adnabod Mr Ioan Jones yn well a dysgu mwy am ei weledigaeth i'r ysgol.

Fe welwch chi bod Adroddiad Ariannol yr ysgol am 2021-22 a rhagolygon 2022-23 yng nghlwm wrth yr Adroddiad hwn. Does dim angen i fi atgoffa neb ein bod ni'n byw mewn cyfnod economaidd heriol tu hwnt a bod gofalu am gylludeb yr ysgol wedi bod yn flaenoriaeth wrth gynllunio'r dyfodol. Mae'r Adroddiad yn dangos bod gan yr ysgol £178,574.59 wrth gefn. A thra bod y ffigwr hwn yn gywir, mae'n dwyllodrus. I ddechrau, dyna oedd y swm ar Ebrill 5ed 2022 - 6 mis yn ôl. Hefyd, toc cyn cadarnhau'r swm hwn derbyniwyd nifer o grantiau hwyr ac mae hynny wedi chwyddo'r swm. Cymorth ar gyfer Covid oedd y grantiau hwyr, a does dim sicrwydd y bydd grantiau mor hael ar gael yn y dyfodol. Defnyddiwyd y grantiau i gyflogi athro ychwanegol am gyfnod cyn yr haf i weithio gyda charfannau o blant i wneud yn iawn am yr amser a'r cyswllt a gollwyd yn ystod y pandemig.
Hefyd, mae tueddiadau demograffig naturiol ein hardal yn golygu bod nifer y disgyblion wedi gostwng yn ddiweddar, felly mae'r swm mae'r ysgol yn derbyn ar sail nifer ei disgyblion hefyd yn gostwng. Er enghraifft, roedd 34 disgybl yn y dosbarth y gadawodd ar ddiwedd 2021-22 ond dim ond 16 yn dosbarth a ddechreuodd yn yr ysgol. Ry'n ni'n cydnabod y realiti hwn ac ry'n ni wedi bod yn bro-actif yn ein hymdrechion i ddenu disgyblion newydd drwy sefydlu gweithgor i fynd i'r afael â'r sefyllfa. Os hoffech fod yn rhan o'r gweithgor, neu os oes gennych syniadau, cysylltwch â'r swyddfa ar admin@teilosant.ysgolccc.cymru o dan y pennawd "Gweithgor Marchnata".
Er gwybodaeth pellach, mae ysgolion yn derbyn swm penodol o gyllid ar gyfer pob disgybl sydd yn yr ysgol, ac mae'r swm hwnnw'n ddibynnol ar leoliad a natur socio-economaidd yr ysgol a'r dalgylch. Mae Ysgol Gymraeg Teilo Sant yn

derbyn un o'r symiau isaf ar gyfer pob disgybl yn yr ardal hon – rydym yn 100fed allan o 101o ysgolion ar y rhestr.
Mae rheolaeth ariannol yr ysgol yn parhau i fod yn flaenllaw wrth gynllunio i'r dyfodol, ac mae'ch cefnogaeth chi i'r Gymdeithas Rieni wrth iddynt godi arian mewn amryw ddigwyddiadau yn parhau i fod yn hynod bwysig. Mae'n dyled i'r Gymdeithas Rieni wrth iddynt gynllunio rhaglen o weithgareddau cymdeithasol i'n diddannu a chodi arian i gefnogi'r ysgol a'n plant, yn fawr. Mae'r grantiau mae'r GRhA eisoes wedi sicrhau i adnewyddu'r Hafan newydd yn wych, a gwn eu bod yn parhau i chwilio am ffyrdd eraill o godi arian yn y dyfodol.
Gobeithio i chi nodi'r gwaith cynnal a chadw sydd wedi digwydd o amgylch y safle yn ystod gwyliau'r haf a gwyliau'r hanner tymor. Mae'r gwaith hwn yn ganlyniad i Uwch-Dîm Arwain yr ysgol a'r Corff Llywodraethol yn rhoi pwysau ar yr Awdurdod i wella amgylchedd yr ysgol, a rhaid dweud bod tipyn o welliant wedi bod ar y prif iard ac o amgylch y safle. Byddwn yn parhau i weithredu dros gael mwy o ddatblygiadau yn y misoedd nesaf.
Sgwn i faint ohonoch sydd yn sylweddoli bod yr ysgol yn dathlu carreg filltir pwysig yn ystod y flwyddyn academaidd hon? Mae'n hanner canrif ers i Ysgol Gymraeg Teilo Sant symud i'w safle presennol ar Heol Rhosmaen ac ry'n ni'n edrych ymlaen at glywed sut bydd y disgyblion yn nodi'r achlysur hwn yn ystod y flwyddyn.
Er gwaetha'r holl heriau a fu a'r cyfnod anodd i ddod, rhaid parhau i atgoffa'n hunain a'n gilydd am y gwaith gwych sy'n cael ei wneud o ddydd i ddydd mewn dosbarthiadau ac yn allgyrsiol. Mae brwdfrydedd y disgyblion ac egni ein staff wir yn ysbrydoledig ac edrychwn ymlaen at weld ffrwyth eu llafur ar lwyfanau, caeau chwarae, mewn llyfrau gwaith ac yn y gymuned yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.
Diolch i'r holl staff sydd yn cadw'n plant yn ddiogel o ddydd i ddydd a dymuniadau gorau i bawb o deulu'r ysgol am weddill y flwyddyn academaidd.

Tim Hayes
Cadeirydd Corff llywodraethol Ysgol Gymraeg Teilo Sant.

AELODAU'R CORFF LLYWODRAETHOL AR 31/08/2022

Enw	Statws	Dyddiad Terfynu
Mr Tim Hayes - Cadeirydd	Cynrychiolydd Cymunedol	23/11/2025
Mrs Ellen Llewellyn- Is-Gadeirydd	Cynrychiolydd Awdurdod Lleol	22/03/2025
Mrs Maureen Williams	Pennaeth Dros Dro	31/08/2022
Mr Owain Gruffydd	Cynrychiolydd Awdurdod Lleol	14/07/2024
Mr Jonathon Davies	Rhiant Lywodraethwr	23/01/2026
Mrs Carys Davies	Rhiant Lywodraethwr	31/12/2024
Mr Emyr Davies	Rhiant Lywodraethwr	20/03/2023
Mrs Naomi Williams	Rhiant Lywodraethwr	26/01/2025
Mr Rob Walters	Cynrychiolydd Cymunedol	09/02/2026
Mrs Catrin Small	Cynrychiolydd Cymunedol	09/04/2023
Mrs Mared Williams	Rhiant Lywodraethwraig	02/12/2025
Mr Euros Owen	Cynrychiolydd Cymunedol	08/03/2025
Y Cynghorydd Rob Jones	Cynrychiolydd Cymunedol	17/03/2023
Lle Gwag	Cynrychiolydd Awdurdod Lleol	
Mr Andrew Thomas	Cynrychiolydd Cymunedol Ychwanegol	07/02/2023
Mr Aled Prytherch	Staff Dysgu	10/10/2024
Miss Elen Davies	Staff Dysgu	20/12/2025
Mrs Elena Jones	Staff heb fod yn Dysgu	08/09/2023

CADEIRYDD Y CORFF LLYWODRAETHOL

Mr Tim Hayes
d/o Ysgol Gymraeg Teilo Sant
18 Stryd Rhosmaen
Llandeilo
SA19 6LU
timothy.hayes@bromyrddin.org

CYFANSODDIAD Y CORFF LLYWODRAETHOL

Ceir trawstoriad o'r gymuned leol ar Gorff Llywodraethol yr Ysgol ac fe etholir y Cadeirydd ar ddechrau pob blwyddyn academaidd newydd. Mae'r Corff Llywodraethol llawn yn cyfarfod unwaith bob tymor ac mae'r Pennaeth yn paratoi adroddiadau manwl i'w trafod sy'n cynnwys gwybodaeth am gynnydd disgyblion, datblygiadau cwricwlaidd a materion staffio, etc. Mae gan y Corff Llywodraethol bedwar is-bwyllgor sydd hefyd yn cwrdd yn dymhorol neu'n amlach os oes galw, sef:

- Is-bwyllgor Cyllid, Staffio ac Adeilad (Cadeirydd: Mr Emyr Davies)
- Is-bwyllgor Dysgu ac Addysgu (Cadeirydd: Mr Tim Hayes)
- Is-bwyllgor Arweinyddiaeth a Rheolaeth (Cadeirydd: Mr Euros Owen)
- Is- bwyllgor marchnata (Cadeirydd: Mrs Ellen Llewellyn)

Mae aelodau'r Corff Llywodraethol yn aelodau ar o leiaf ddau o'r Is-bwyllgorau uchod yn unol â'u profiad ac arbenigedd.

COSTAU LLYWODRAETHWYR

Ni hawliwyd costau gan unrhyw Lywodraethwr yn 2021/22.

RHIANT LYWODRAETHWYR

Pan fod angen ethol rhiant lywodraethwyr, dosberthir ffurflenni ethol i bob rhiant yn yr Ysgol a lle ceir mwy nag un enwebiad cynhelir etholiad. Rhieni sy'n enwebu ac ethol rhiant lywodraethwyr.

CYFARFODYDD

Ni chynhelir cyfarfod blynyddol i rieni bellach, oni bai bod rhieni eisiau cynnal cyfarfod. Mae hawl cynnal tri chyfarfod bob blwyddyn trwy gyflwyno deiseb gyda 10% o rieni'r ysgol yn arwyddo'r ddeiseb a nodi pam maent eisiau cynnal cyfarfod. Ni chynhaliwyd unrhyw gyfarfod gyda rhieni o dan adran 94 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn ystod y cyfnod dan sylw.

CWYNION

Mae gan yr Ysgol bolisi cwynion a gweithredir yn unol â'r polisi hwn. Gellir cael copi o'r polisi o'r ysgol.

POLISÏAU

Cafodd nifer o bolisïau eu hadolygu a'u diweddaru gan y corff llywodraethol yn ystod y cyfnod dan sylw ac mae'r rhain i'w gweld ar y wefan a/neu ap yr ysgol. Gellid cysylltu â'r swyddfa am unrhyw bolisïau eraill.

CYSYLLTU

Os oes gennych unrhyw ymholiad neu sylwad yr hoffech ei holi neu rannu gyda'r Corff Llywodraethol, mae croeso i chi ysgrifennu at y Cadeirydd trwy lythyr i swyddfa'r ysgol neu e-bost. Croesawn eich cyfraniad bob amser.

STAFF

(Cywir ar 31/08/2022)

PENNAETH DROS DRO
Mrs Maureen Williams

ATHRAWON
Mr Aled Prytherch (Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol Dros Dro)
Miss Elen Davies
Miss Jessica Lloyd
Miss Nia Davies
Mr Ryan Bennet (Athro dros gyfnod mamolaeth Miss Elen Davies)
Mrs Sara Jones
Mrs Siwan Roberts (Aelod o'r Uwch Dîm Rheoli)
Miss Sarah Jones

ARWEINWYR MEITHRIN
Ms Amanda Jones
Miss Lowri Jones

CYNORTHWYWR DOSBARTH
Mrs Andrea Evans
Mrs Avril Desvaux de Merigny
Mrs Carolyn Crayford
Mrs Elena Jones
Mrs Heather Davies
Mrs Lynda Morgan
Mrs Meryl Thomas
Mrs Nerys Davies
Mrs Nerys Howell

ATHRAWON PERIPATETIG

GOFALYDD
Mrs Eirwen Spencer
Mr Wyn Harris (Cynnal tir yr ysgol)

GLANHAWYR
Ms Danielle Donolly
Mrs Eirwen Spencer
Mrs Gillian Thomas (Llinynnau)
Mrs Janet Rowberry (Chwythbrennau)
Mrs Nia Clwyd Davies (Canu Corawl)
Mr Richard Walters (Gitâr)
Ms Stephanie Rees (Pres)

SWYDDOG GWEINYDDOL
Miss Lisa Roberts

CLERC I'R CORFF LLYWODRAETHOL
Mrs Lynwen Davies (Cyngor Sir Gâr)

CYNORTHWYWYR AWR GINIO
Ms Danielle Donolly
Mrs Elaine Roberts
Mrs Karen Thomas
Miss Samantha Dyer
Mr Wyn Harris
Cynorthwywyr Dosbarth

ADRODDIAD 2021/22

CATEGORI IAITH A'R DEFNYDD O'R GYMRAEG GAN DDISGYBLION

Ysgol Gymraeg yw Teilo Sant, ac felly Cymraeg yw iaith yr Ysgol o ddydd i ddydd. Y nod yw sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn meddu ar ddwyieithrwydd cytbwys sy'n berthnasol i'w hoed er mwyn eu galluogi i fod yn aelod cyflawn o gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni. Cymraeg yw iaith naturiol cyfathrebu'r ysgol, a chynhelir gwasanaethau a gweithgareddau ysgol yn bennaf yn y Gymraeg. Mae'r ysgol yn cyfathrebu â'r rhieni yn y naill iaith â'r llall.

DISGYBLION AG ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

Caiff y disgyblion hyn gymorth da a phriodol o fewn yr ysgol gan gynorthwywyr profiadol. Mae'r oriau o gymorth a dderbyniant yn amrywio yn unol â'u anghenion unigol. Darperir Cynllun Addysg Unigol ar gyfer holl ddisgyblion Gweithredu Ysgol a Mwy yr ysgol ac adolygir y rhain yn dymhorol.

NEWIDIADAU I'R PROSBECTWS

Mae newidiadau i Staff, Llywodraethwyr, Cymdeithas Rieni ac Athrawon yn cael eu gwneud yn ôl yr angen.

IECHYD A DIOGELWCH

Rydym yn dilyn trefniadau diogelwch tynn yn ddyddiol. Mabwysiadwyd a gweithredwyd ar Asesiadau Risg yr Awdurdod ar gyfer canllawiau Covid-19 ynghyd â mynychu cyfarfodydd wythnosol 'TTP' ac iechyd a diogelwch.

CYFLEUSTERAU'R TOILEDAU

Mae toiledau ar gyfer pob dosbarth. Darperir sebon a phapur sychu dwylo gyda hylif di-heintio tu allan i bob tŷ bach. Caiff y toiledau eu glanhau'n ddyddiol.

BWYTA AC YFED YN IACH

Mae ffynnon ddŵr wedi'i lleoli ar bwys yr ystafell athrawon sy'n caniatáu mynediad at ddŵr yfed i'r disgyblion. Mae'r plant yn cael eu hybu i fwyta'n iach ac mae bwydlen cinio ysgol yn unol â darpariaeth bwyta'n iach yr Awdurdod Lleol. Mae'r plant yn dysgu am bwysigrwydd bod yn iach fel rhan annatod o gwricwlwm yr ysgol.

CWRICWLWM

Fel cymuned ysgol rydym yn darparu addysg o ansawdd uchel gan sicrhau profiadau addysgiadol cyfoethog er mwyn datblygu'r disgybl cyflawn. I wneud hyn rydym yn datblygu'r pedwar diben fel edafedd aur trwy holl weithgarwch yr ysgol er mwyn rhoi'r cyfle i bob plentyn ddatblygu i fod:

- yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
- yn gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith
- yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus sy'n barod i fod yn ddinasyddion yng Nghymru a'r byd
- yn unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas

Defnyddir fframweithiau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol cenedlaethol er mwyn datblygu sgiliau'r dysgwyr gan ddatblygu eu dealltwriaeth a gwybodaeth yn draws gwricwlaidd. Gwneir hyn trwy ddilyn themâu gan gynnwys llais y disgyblion ar y daith o gynllunio ar gyfer y chwe maes dysgu a phrofiad y cwricwlwm newydd, sef:

- Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Mathemateg a Rhifedd
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg
- Iechyd a Lles
- Dyniaethau
- Celfyddydau Mynegiannol

Rydym yn asesu a thracio cynnydd disgyblion ym mhob agwedd o'u gwaith gan ddarparu adborth adeiladol i ddisgyblion ar eu cyrhaeddiad a chyfleoedd pwrpasol iddynt ymateb i adborth yr athrawon er mwyn gwella eu gwaith a'u cyrhaeddiad. Addysgir disgyblion yr ysgol fesul blwyddyn yn ôl eu hoedran.

CYNLLUN DATBLYGU'R YSGOL

Fel ysgol rydym yn ymwneud â phroses o hunan arfarnu cyson o ran pwyso a mesur beth sydd yn gweithio'n dda a'r hyn sydd angen gwella. Yn dilyn y broses yma rydym yn gweithio ar Gynllun Datblygu Ysgol, dogfen fyw sy'n cael ei gweithredu'n barhaol trwy'r flwyddyn. Mae'r ddogfen yn nodi ble ydyn ni ar hyn o bryd, yr hyn sydd angen gwella, sut, ac yna mesur yr effaith.

PRIF FLAENORIAETHAU 2021/22

1. Parhau i ddatblygu a dyfnhau deallusrwydd cymuned gyfan yr ysgol o'r Cwricwlwm Newydd.
2. Anghenion Dysgu Ychwanegol - gweithredu ar ofynion y côd trawsnewid ADY.
3. Parhau gyda'r rhifedd - datblygu darpariaeth Rhifedd ar draws yr ysgol a gwella gallu disgyblion i gymhwyso eu gwybodaeth fathemategol a sgiliau rhifedd mewn ystod o wahanol gyd-destunau.

PRIF FLAENORIAETHAU 2022/2023

1. I ddatblygu ymhellach systemau cynllunio ac asesu newydd gan werthuso ar hyd y daith i sicrhau cynnydd da yn y medrau allweddol ar draws y MDaPh.
2. Anghenion Dysgu Ychwanegol - Sicrhau bod y ddarpariaeth gyffredinol /unigol yn datblygu medrau allweddol y dysgwyr.
3. Blaenoriaeth 3: Datblygu rhaglen lles (TIS) ar draws yr ysgol er mwyn sicrhau bod pob disgybl yn cael mynediad gorau posibl i gwricwlwm yr ysgol.
4. Cryfhau ymhellach gapasiti arweinyddiaeth yr ysgol a rôl yr arweinwyr o fewn rhaglen hunan arfarnu gynhwysfawr.
5. Codi safonau rhifedd a sicrhau bod holl sgiliau MDaPh a'r fframwaith rhifedd a mathemateg yn cael eu haddysgu drwy ddefnyddio rhaglen gynhwysfawr Big Maths

PRESENOLDEB YN YSGOL GYMRAEG TEILO SANT 2020/21

Yn arferol gosodir targed o 96% ar gyfer presenoldeb ysgol gyfan gan y Corff Llywodraethol. Mae polisi wedi ei fabwysiadu a'i adolygu sy'n amlinellu'r camau sydd i'w cymryd gan yr ysgol mewn cydweithrediad â'r Swyddog Lles Addysg i geisio cyrraedd at y targed hwn ac i leihau absenoldebau heb

eu hawdurdodi. Mae hyn yn cynnwys cysylltu â rhieni i ofyn am eglurhad am unrhyw absenoldeb sydd heb ei awdurdodi, gan gael gwared â'r cod N yn y gofrestr. Yn amlwg yn sgil Covid-19 mae'r presenoldeb wedi ei effeithio, a chanran presenoldeb cyffredinol 2021/22 oedd 92%.

POLISI AMDDIFFYN PLANT

Mae gan yr ysgol bolisi amddiffyn plant sy'n seiliedig ar ganllawiau cenedlaethol. Yr aelodau staff dynodedig ar gyfer amddiffyn plant yw Mrs Maureen Williams a Mrs Siwan Roberts. Mae aelod dynodedig o'r corff llywodraethol hefyd â chyfrifoldeb am ddiogelu ac amddiffyn plant.

BLAS O WEITHGAREDDAU'R YSGOL

Darparwyd y profiadau isod gan staff yr ysgol ac aelodau'r gymuned ehangach ar gyfer ein disgyblion.

Dathlu llwyddiant a mwynhad 2021-2022

Uchafbwyntiau Tymor yr Hydref

Er i ni barhau mewn cyfnod o ddelio gyda'r Pandemig gwnaeth staff yr ysgol a'r gymuned ehangach eu gorau glas i roi addysg a gofal arbennig i'n dysgwyr. Bu'r thema 'Llaw i helpu' yn amserol iawn. Gyda balchder rhannaf flas o brofiadau gwnaeth y dysgwyr elwa ohonynt:

Llaw i helpu - Cymuned a thu hwnt

Gwennan y nyrs yn sgwrsio gyda Bl 6 am newidiadau corff a glendid.
PC Tristan -Ysgol Gyfan- Trafodaethau yn amrywio o bobl sy'n ein helpu i ddiogelwch ar lein.
Bu Swyddog tân Elinor Goldsmith yn trafod diogelwch yn y cartref gydag amryw o flynyddoedd.
Cynhaliwyd ymweliad rhithiol - Llaw i helpu yn y cymunedau- Cyng Owen James, Cyng Ann Davies, Lesley Prosser- Bl 4,5 a 6.
Nina Morgan- Prosiect Celf bl 3,4,5 a 6.
Rhys Padarn Jones- Cyflwyno prosiect murlun i'r hen farchnad Bl 4, 5 a 6.
Sul y cofio- Gwnaeth dau ddisgybl gynrychioli'r ysgol yn y gwasanaeth ym Mharc Penlan.
Llinos Mirsa- Gweithdy gwyddoniaeth bl 5 a 6 - Clefydau heintus a thriniaethau.

Cynghorau'r ysgol yn cynnig llaw i helpu

Diwrnod Macmillan, codwyd £148.00.
Cynhaliwyd wythnos Siarter iaith- Gweithgareddau i ddathlu'r Gymraeg a Glyn o'r fenter yn cynnal Eisteddfod Ddwl bl 3 a 4.
Plant mewn angen- codwyd £191.00
Diwrnod siwmperi Nadolig -codwyd £138.00

Llaw rhieni i helpu

Daeth Jonathan Edwards i helpu ffilmio ar gyfer y gân 'Llaw i helpu'.
Daeth Iwan Williams, rhiant yn yr ysgol i siarad gyda blwyddyn 1 am ei waith fel milfeddyg.
Bu Dr Rhys Thomas- yn yr ysgol yn cynnal gweithdy creu 'DIY Hepa/Covid filters' a siarad am ei waith ym maes Iechyd.

Diolch i Ms Nian Liu am ddod i'r ysgol i dynnu lluniau unigol a dosbarthiadau.

Ymweliadau
Braf oedd cael ymweld â Chapel Newydd i recordio canu carolau.
Blynyddoedd Cynnar yn ymweld â'r Hengwrt i wneud gweithgareddau Nadolig.
Cafodd dysgwyr y Blynyddoedd Cynnar modd i fyw wrth gael blas ar ffermio i fyny ym mharc Dinefwr.

Gyda holl brysurdeb y dysgu a'r addysgu gwnaeth y staff barhau i fanteisio ar bob cyfle i ddablygu'n broffesiynol gan godi safonau o fewn yr ysgol.
Roedd hi'n fendigedig i ddathlu llwyddiant cydnabyddiaeth PSQM sef marc safon gwyddoniaeth o fewn y sector cynradd. Gwnaeth yr ysgol elwa'n fawr o'r profiad ac mae'r gwaith yn parhau o fewn yr ysgol ac arbenigedd o fewn yr ysgol yn mynd i gael ei ddefnyddio'n ehangach mewn ysgolion eraill yng Nghymru.

Llongyfarchiadau i Miss Elen Davies a Mr Aled Prytherch ar gwblhau Rhaglen Datblygu Arweinydd Canol

Unwaith eto bu'r ysgol yn rhannu arfer o fewn hyfforddiant Sirol.

Uchafbwyntiau Tymor y Gwanwyn

Braf iawn oedd lansio gwefan newydd yr ysgol. <https://ysgolteilosant.cymru/>

Bu'r dysgwyr yr ysgol yn brysur yn ymwneud â chynllun ffitrwydd er mwyn hybu'r dysgwyr i ail-gydio mewn sialensiu ymarfer corff.

Profodd Parti Mr Urdd yn 100 oed i fod yn llwyddiant ysgubol gyda'r Urdd yn torri 2 record byd. Roedd yna fwrlwm o fwynhad ar draws y safle a thu hwnt.

Bu cystadleuaeth rownd cyntaf Cogurdd yr Ysgol yn fwynhad pur gyda llond ystafell o "kebabs" ffrwythau creadigol a lliwgar.

Derbyniwyd newyddion da o lawenydd mawr ein bod wedi bod yn llwyddiannus gyda'r cais grant llyfrgell a llecyn lles. Mae'r ysgol wedi derbyn £7,268.00. Diolch i bawb a wnaeth ein helpu.

Gwnaeth dysgwyr Blwyddyn 5 fwynhau'r cyfle i ymweld â Davies & CO i gwrdd â rhai o enwogion y byd rygbi sef y "FAB FOUR "

Gwnaeth dysgwyr y meithrin a'r derbyn elwa pan ddaeth Elin a Sioned i'r ysgol i wneud stori synhwyraidd gyda'r dysgwyr. Mae Sioned ac Elin yn cefnogi gydag iaith a llefaredd yn yr awdurdod.

Mae dysgwyr blwyddyn 6 wedi elwa'n fawr o sesiwn Iechyd a Lles o dan arweiniad Simon Davies -Bro Dinefwr. Fel Ysgol rydym yn cyd-weithio fel rhan o glwstwr Bro Dinefwr ar ddatblygu ein cwricwlwm Iechyd a Lles.

Bu criw o ddysgwyr Bl 5 a 6 lawr ym Mro Dinefwr ar gyfer twrnamaint rygbi Clwstwr Bro Dinefwr. Llongyfarchiadau iddynt ar ddod yn ail. Roedd hi'n llesol gael ail-gydio ym mywyd cystadlu gydag ysgolion eraill yn y gymuned.

Cynhaliwyd wythnos derbyn a chodi ymwybyddiaeth Awtistiaeth. Cynhaliwyd gwasanaeth ysgol gyfan ar ddechrau'r wythnos i ddechrau codi ymwybyddiaeth am awtistiaeth. Yn ystod yr wythnos bu'r dosbarthiadau yn gwneud gwahanol weithgareddau. Fel ysgol fe fyddwn yn parhau i ddilyn hyfforddiant awtistiaeth ysgol gyfan.

Cwis Dîm Clem. Ers nifer o flynyddoedd mae'r Cwis Dim Clem sy'n cael ei drefnu gan Y Fenter Iaith yn ddigwyddiad mawr yng nghalendr dysgwyr Blwyddyn 6. Doedd eleni ddim yn eithriad. Llwyddodd tîm yr ysgol i gyrraedd y rownd derfynol ar lefel cenedlaethol gan gipio'r ail safle.

Mae dysgwyr blwyddyn 6 wedi mwynhau ac elwa o ail-gydio mewn sesiynau nofio yn Llanymddyfri.

Cynghorau Ysgol

Diwrnod diogelwch ar-lein- Diolch i'r Cyngor Digidol am drefnu gweithgareddau diogelwch ar-lein a chreu fideo a gwybodaeth ar gyfer cadw'n ddiogel ar-lein

Trefnodd y Cyngor Ysgol, Cyngor Eco a'r Cyngor Ysgolion Iach her gerdded -21ain o Fawrth a'r 1af o Ebrill. Fel rhan o'r paratoi fe ddaeth Nicola Olsson swyddog diogelwch y ffyrdd i drafod diogelwch wrth gerdded i'r ysgol. Gwnaeth y cynghorau baratoi gwybodaeth i rannu gyda'r dysgwyr a'r rhieni. Y meithrin enillodd yr her gerdded gyda 49% o'r dysgwyr yn cerdded i'r ysgol. Casglwyd data cyn yr her i weld faint o blant oedd yn cerdded i'r ysgol. 17% oedd yn cerdded i'r ysgol cyn yr her. Yn ystod yr her gerdded codwyd y canran i 48%. Gorffennodd yr ysgol yn y 7fed safle yng nghategori ysgolion o dan 250 o ddysgwyr yn Sir Gaerfyrddin.

Diolch i'r cyngor digwyddiadau am drefnu Diwrnod Trwynau Coch. Bu'r diwrnod yn llwyddiant a chodwyd £217.50 tuag at elusen Comic Relief.

Bu Llysgenhadon blwyddyn 5 a 6 yn arwain sesiwn cadw'n actif a mwynhau chwaraeon o dan ofal Lyn Brodrick.

Yr Eisteddfod Gylch a Rhanbarth

Llongyfarchiadau i bawb wnaeth gystadlu yn yr Eisteddfod Gylch. Bu'r ysgol yn llwyddiannus yn yr unawd blwyddyn 2 ac iau, unawd bl 4 ac iau, unawd cerdd dant blwyddyn 4 ac iau, llefaru blwyddyn 2 ac iau, llefaru blwyddyn 3 a 4, unawd blwyddyn 6 ac iau, unawd cerdd dant blwyddyn 6 ac iau, alaw werin blwyddyn 6 ac iau a'r ddeuawd blwyddyn 6 ac iau. Yn ogystal â chyntaf, dysgwyr Teilo Sant ddaeth yn ail a thrydydd yn y mwyafrif o gystadlaethau.

Wrth symud ymlaen i Eisteddfod Rhanbarth Dwyrain Myrddin, cafwyd diwrnod arall llewyrchus iawn. Yn gyntaf hoffwn rannu gyda chi'r balchder a'r pleser gwnaeth pob aelod o staff deimlo yn dilyn treulio amser yn yr eisteddfod gyda'r plant. Roedd ymddygiad, ymrwymiad a pherfformiadau pob un o'r dysgwyr yn wych ac edrychwn ymlaen yn fawr iawn at yr Eisteddfod yn Ninbych ble fydd yr ysgol yn cystadlu yn y Parti Cerdd Dant, Côr Cerdd Dant. Côr Blwyddyn 6 ac Iau (ysgolion dros 100) a'r Parti Llefaru.

Llongyfarchiadau hefyd ar lwyddiant y dysgwyr ddaeth yn ail a thrydydd yn yr Eisteddfod Rhanbarth

Parti Deulais- ail

Parti unsain - ail

Ymgom -ail

Canu unawd blwyddyn 2 ac iau - ail

Llefaru bl 2 ac iau - trydydd

Unawd bl 3 a 4 - trydydd

Llefaru bl3 a 4 - trydydd

Unawd Cerdd Dant bl 3 a 4- Trydydd

Unawd Cerdd dant bl 5 a 6 - ail

Unawd bl 5 a 6 - ail

Deuawd bl 6 ac iau - ail

Alaw werin - ail

Diolch i bawb bu'n helpu, boed yn staff a rhieni. Heb os nac oni bai mae'r diolch mwyaf yn mynd i'r dysgwyr, nid yn unig ar gyfer eu perfformiadau yn yr eisteddfodau ond hefyd am eu hymrwymiad i ail-gydio yn y cystadlu, eu gwaith caled ac am ddod a bwrlwm y canu, llefaru a'r actio yn ôl i safle'r ysgol.

Uchafbwyntiau Tymor yr Haf

Partion canu yn perfformio yng Ngwasanaeth Diolchgarwch Dinesig (Cyngor Tref Llandeilo Fawr) yn Eglwys Sant Teilo ac yna eto yng nghyngerdd - Band Tref Llandeilo.

Bu Rhys Padarn a'r dysgwyr yn gweithio ar furlun ar gyfer yr Hen Farchnad. Edrychwn ymlaen at weld y gwaith wedi ei arddangos yn yr Hen Farchnad. Diolch i Rhys Padarn, cwmni TRJ a'r cyngor am roi'r cyfle bythgofiadwy yma i'n dysgwyr.

Dysgwyr bl 5 a 6 yn elwa o brosiect STEM gan y Gymdeithas Frenhinol ar y cyd gyda'r Gerddi Botaneg. Bu'r dysgwyr yn dysgu am wahanol fathau o wenyn, blodau, casglu data a phlannu blodau a phlanhigion yn ôl yn yr ysgol.

Cynhaliwyd hyfforddiant beicio ar gyfer Bl 6.

<u>Ymweliad bl 5 a 6 -Parc Gwledig Pen-bre</u>
Manteisiwyd ar y cyfle i fynd â dysgwyr bl5 a 6 i weld cychwyn ras seiclo Taith Merched Prydain. Yn ystod y dydd bu'r dysgwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon a dathlu ein Llysgenhadon Ifanc Efydd.

<u>Ymweliad meithrin, derbyn, 1 a 2 - Gerddi Botaneg</u>
Cafodd dysgwyr Cyfnod Sylfaen fodd i fyw wrth ymweld â'r Ardd Fotaneg. Darparwyd gweithgareddau cyffrous a diddorol iddynt yn y gerddi.

Gwnaeth dysgwyr Bl 3,4,5 a 6 elwa'n fawr o'u taith i Techniquest yng Nghaerdydd. Ysbrydolwyd y dysgwyr i ymgymryd â'r gweithgareddau gwyddonol.

Taith Trwy'r Beibl.
Am gyfnod o 4 wythnos bu dysgwyr blwyddyn 5 a 6 yn rhan o weithdai dysgu am y Beibl trwy weithgareddau diddorol a rhyngweithiol dan arweiniad Gordon a Christine Harvey.

Mabolgampau
Braf iawn oedd ail-gydio mewn profiadau gwerthfawr mabolgampau.

Cynhaliwyd gweithdy celf- ar gyfer dysgwyr blwyddyn 6 o dan arweiniad ac arbenigedd Ainsley Hillard.

Daeth Glyn o'r Fenter i gynnal gweithdai- gemau buarth a sesiwn adeiladu tîm gyda dysgwyr bl 6

Gwnaeth dysgwyr blynyddoedd 5 a 6 elwa o ddiwrnodau pontio gydag ysgolion Uwchradd.

Yn ystod y tymor bu Lee Rees yn cynnal gweithdai rygbi gyda blwyddyn 5.

Eleni eto mae'r ysgol wedi bod yn llwyddiannus ym Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig gan ennill gwobr treftadaeth a rhodd o £300.00 am brosiect Santes Dwynwen gan ganolbwyntio ar les a chyfeillgarwch.

Cynghorau Ysgol

Cynhaliwyd -Wythnos Ffoaduriaid

Bu'r cyngor digwyddiadau yn rhan o gynllunio ar gyfer y Ffair haf.

Cyngor Eco- Diwrnod yng nghwmni Aled Ynni Da ar gyfer dysgwyr blynyddoedd 3, 4, 5 a 6. Gwnaeth yr ysgol elwa o'r digwyddiad o ganlyniad i grant derbyniodd y cyngor dref i fuddsoddi mewn paneli solar ac addysgu'r gymuned am ynni amgylcheddol**.**

Gwobr Eco-sgolion - Platinwm.
Cadarnhawyd bod yr ysgol wedi bod yn llwyddiannus gydag ennill y faner ar gyfer y wobr blatinwm. Da iawn i bawb am gyfrannu tuag at ennill y wobr ond yn bwysicach cyfrannu tuag at welliant amgylcheddol gan fod yn ddysgwyr egwyddorol.

Cyngor ysgolion iach
Bu dysgwyr Blwyddyn 1 yn brysur yn plannu blodau ar gyfer eu harddangos yn y gymuned. Roedd Mary sy'n 110 oed wrth ei bodd yn derbyn y blodau ar ran cartref Awel Tywi.

Eisteddfod yr Urdd
Diolch i bawb wnaeth gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd a diolch i chi fel rhieni am eich ymrwymiad i sicrhau bod y dysgwyr yn cael y profiadau gwerthfawr yma. Mae cyrraedd Eisteddfod yr Urdd yn fraint yn ei hun ac mae ennill yn fonws ychwanegol. Llongyfarchiadau i'r parti llefaru ar gipio'r wobr gyntaf.

YDDIADAU BLWYDDYN ACADEMAIDD 2022/23

Dyddiadau tymhorau a gwyliau / Term and school holiday dates

Nodwch y gallai manylion y calendr hwn newid o ganlyniad i benderfyniadau polisi'r llywodraeth. Nid yw Cyngor Sir Caerfyrddin yn derbyn cyfrifoldeb dros unrhyw golledion yn sgîl gorfod newid trefniadau gwyliau oherwydd newidiadau o'r fath.

DATGANIAD ARIANNOL LLAWN 2021/22

Gwelir isod grynodeb o sefyllfa ariannol yr ysgol ar gyfer 2021/22 (hyd 31/03/2022)

Gwelir isod crynodeb sefyllfa ariannol terfynol eich ysgol ar gyfer 2021/22.	£	Please see below a summary of your school's final outturn position for 2021/22.
Gwariant Net 2021/22	617,668	Net Expenditure 2021/22
Dyraniad Ariannu yn ôl Fformwla 2021/22	-650,531	Formula Funding Allocation 2021/22
Arian Wrth Gefn a Ddygwyd Ymlaen o 2020/21	-145,712	Surplus Brought Forward from 2020/21
Arian Wrth Gefn yn Cario Drosodd i 2022/23	-178,575	Surplus Carried Forward to 2022/23

Grantiau / Grants

Grantiau gyda gwargedion dygwydo ymlaen o 2020/21 / Grants with Balances brought forward from 2020/21

Enw'r Grant / Grant Name	Côd Swydd / Job Code	Dyraniad d/y 2020/21 Allocation b/f £	Dyraniad 2021/22 Allocation £	Cyfanswm Dyraniad / Total Allocation £	Gwariant / Expenditure £
Cyfnod Sylfaen/ Foundation Phase	039297	0.00	70,547.50	70,547.50	73,808.80
GDD / PDG	050337	0.00	8,050.00	8,050.00	9,217.60
GDDBC/ EYPDG	050838	0.00	4,600.00	4,600.00	4,851.24
GDD – Ysgolion heb PYDd / PDG – Schools with no FSM	050588	0.00	0.00	0.00	0.00
GGA / EIG	050545	356.35	10,411.18	10,767.53	11,353.05
Arloesi Ysgolion Bach a Gwledig / Innovation Small and Rural Schools	050553	0.00	0.00	0.00	0.00
Grant Lleihau Maint Dosbarth Babanod / Infant Class Size Reduction Grant	050583	0.00	0.00	0.00	0.00
Dysgu Proffesiynol / Professional Learning	050590	0.00	4,074.50	4,074.50	4,074.50
Rhaglen Dysgu Carlam / Accelerating Learning Programme	050629	0.00	16,723.49	16,723.49	22,212.56
Grantiau Teithwyr Sipsiwn a Saesneg Iaith Ychwanegol / Gypsy Traveller and English Additional Language Grants	050635 / 050636	0.00	0.00	0.00	0.00

Grantiau gyda gwargedion yn cario ymlaen i 2022/23 / Grants with Balances carried forward to 2022/23

Enw'r Grant / Grant Name	Côd Swydd / Job Code	Dyraniad 2021/22 Allocation	Gwariant 2021/22 Expenditure	Dyraniad c/d i 2022/23 / Allocation c/f to 2022/23
Grant Fferm Wynt Brechfa / Brechfa Wind Farm Grant	050651	0.00	0.00	0.00
Gweithgareddau ymgysylltu â theuluoedd / Family Engagement Activities	050722	0.00	0.00	0.00
Cyrsiau Rhieni i gefnogi / Course for Parents to support	050723	0.00	0.00	0.00
Gweithgareddau / Cyrsau Hwb Cymunedol / Community Hub Activities / Cou	050724	0.00	0.00	0.00

Grantiau Eraill / Other Grants

Enw'r Grant / Grant Name	Côde Swydd / Job Code	Dyraniad / Allocation £
WESP / Siarter Iaith	050504	0.00
Grant Cynnal Ysgol / School Maintenance Grant	050573	20,213.06
Grant Codiad Cyflog Athrawon / Teachers' Pay Award Grant	050591	1,938.66
Hyfforddiant Iaith	050641	0.00
Cefnogi Plant y Lluoedd mewn Addysg / Supporting Service Children in Education	050650	0.00
Prosiect S4C ac Ysgolion Sir Gar / S4C and Carmarthenshire Schools Project	050674	0.00
Grant Trochi Hwyr / Late Immersion Grant	050675	0.00
Gaeaf Lles / Winter of Wellbeing	050679	3,161.33
ADY Adfer Covid / ALN Covid Recovery	050680	450.00
ADY Systemau Newydd / ALN New Systems	050682	3,921.26
RAChS Ychwanegol / Additional RRRS	050685	14,864.73
Diwygio'r Cwricwlwm & Asesu / Curriculum & Assessment Refor	050689	1,178.89
Cymorth rhanbarthol ar gyfer ieithoedd modern / Regional Support for modern languages	050698	100.00
Codio a Sgiliau Digidol / Coding and Digital Skills	050699	89.29
Grant Llythrennedd a rhifedd / Literacy and Numeracy Grant	050700	0.00
Cyllid a arweinir gan gonsortia / Consortia led funding	050709	257.58
Dysgu – Adnewyddu & Diwygio / Learning – Renew & Reform	050715	2,734.00
Prosiect Twlcit Asesu Camau Assessment Tool Project	050720	0.00
Unedau Arbenigol AAA / SEN Specialist Units	050732	0.00
GDD PDG/ PDG LAC	050962	0.00
Cronfa Caledi & Cholli Incwm Covid Hardship Fund & Loss of Income	220417	8,797.94

GAIR I GLOI

Eleni eto, fe lwyddodd yr ysgol a'r gymuned ymateb yn gadarnhaol gan oresgyn yr heriau a gododd ar hyd y flwyddyn. O restr uchafbwyntiau'r flwyddyn mae'n hyfryd edrych yn ôl a dathlu a gwerthfawrogi llwyddiant a phrysurdeb yr ysgol. Er hynny mae'n gyfnod llawn cyffro yn hanes Ysgol Gymraeg Teilo Sant wrth i ni groesawu Mr Ioan Jones fel ein Pennaeth newydd.

Yn ystod y flwyddyn bu'r cydweithio agos rhwng llywodraethwyr, CRhA, staff, disgyblion a rhieni yn allweddol i gadw cymuned yr ysgol mor ddiogel â phosib a pharhad yn addysg y disgyblion mor gyson a phwrpasol â phosib. Mae'n braf nodi datblygiadau datblygu'r Cwricwlwm Newydd o fewn yr ysgol gyda'r 4 diben yn edau aur yn gweu trwy bob agwedd o fywyd yr ysgol. Mae'r meysydd dysgu a phrofiad wedi eu mapio allan a chymuned gyfan yr ysgol yn gyfforddus i symud ymlaen ar y daith. Yn dilyn prysurdeb staff a dysgwyr yr ysgol trwy gydol y flwyddyn mae'n hyfryd cael rhannu gyda chi fel rhieni brysurdeb gweithwyr ar y safle dros wyliau'r haf. Mae'r safle wedi bod fel golygfa allan o 'Minecraft' gyda llu o waith atgyweirio ac adnewyddu'n digwydd 6/7 diwrnod yr wythnos. Mae'r gwaith yn cynnwys 2 lawr wedi adnewyddu yn y prif adeilad, arwyneb newydd ar y 2 iard, arwyneb diogel tu allan i ddosbarthiadau Bl 1 a 2, gorffen y caban a gosod rampiau newydd i'r caban a chaban bl 4 a 5, gwaith cynnal a chadw i do'r prif adeilad, 'weather boards' newydd, cafnau a draeniau ar hyd y safle wedi eu cywiro a'r hen neuadd fach tu ôl i'r ysgol wedi ei adnewyddu fel ffreutur cinio newydd ar gyfer ein dysgwyr. Bydd mwy o waith yn dilyn yn ystod gwyliau hanner tymor Hydref.

Fel yr arfer mae'r dysgwyr wedi llwyddo i'm rhyfeddu, hoffwn ddiolch iddynt am eu gwydnwch, parodrwydd i addasu a bod yn gwmni hyfryd. Hoffwn ddiolch yn dwym galon i'r holl staff am eu gwaith di-stop, cefnogaeth, doethineb a chyfeillgarwch. Diolch i'r llywodraethwyr am eu cefnogaeth, cyngor a'r holl waith sy'n digwydd yn y cefndir. Diolch i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am weithio gyda ni er lles y disgyblion ac am ail-gydio ym mwrlwm trefnu digwyddiadau llwyddiannus. Yn olaf diolch i chi rieni am eich cydweithrediad, cefnogaeth a pharodrwydd i'n cynorthwyo ni yn yr ysgol er lles ein disgyblion a staff.

Diolch yn fawr

Maureen Williams
Pennaeth Dros Dro